## Yr oedd yn dywyll – Y Canwriad wrth droed y Groes

**Darllen Luc 23:44-49**

Yr oedd yn dywyll,
fel y fagddu,
mor ddu â phechod.
Fyddai dim yn anarferol yn hynny,
oni bai mai canol dydd ydoedd,
a'r haul yn danbaid mewn awyr ddigwmwl eiliadau ynghynt!
Diwrnod cyffredin arall ydoedd tan hynny,
dienyddiad arferol,
a buom yn gwylio'n  ddidaro
wrth i'r gwehilion ddioddef yn y gwres,
yn gweiddi am ddŵr ac yn gwingo yn eu poen.
A oeddwn yn teimlo drostynt?

Dim o gwbl –
y mae rhywun yn cynefino gydag amser.
Ond yr oedd rhywbeth gwahanol
ynglŷn ag un ohonynt y tro hwn,
rhywbeth a ddaliodd fy sylw.
Roedd yno lonyddwch o'i gwmpas,
hyd yn oed awgrym o awdurdod,
a'i gwnaeth yn anodd i mi gredu'r hyn a welwn.
Yr oedd ei gyflwr yn druenus,
ei gefn yn greithiau,
a gwaed yn arllwys o'i ben, ei ddwylo a'i draed;
ond yr oedd rhai, er hynny, yn teimlo nad oedd wedi dioddef digon.

Fe'i gwawdiwyd,
ei sarhau,
ei geryddu,
digon i beri i ddyn cyffredin ymateb yn ffyrnig,
ond, credwch neu beidio, clywais ef â'm clustiau fy hun
yn gofyn i Dduw faddau iddynt.
Rhyfeddol!

A phan fu farw,
buaswn yn taeru bod awgrym o fuddugoliaeth yn ei lygaid,
yn union fel petai'n credu
bod ystyr i hyn i gyd,
bod yna bwrpas cudd.
Ond y tywyllwch a'm dychrynodd i fwyaf,
y modd y diffoddwyd y golau ar amrantiad,
y modd y diffoddwyd y sŵn.

Cyd-ddigwyddiad, medd rhai,
ond nid fi;
gwelais ddigon i'm hargyhoeddi bod y dyn hwn yn unigryw,
a heb os nac oni bai yn ddieuog,
bron na fuaswn yn dweud yn Fab Duw.
Fel arfer, nid oes gennyf fawr o amynedd â'r fath ffwlbri,
nid wyf yn ddyn teimladwy o bell ffordd –
ond wrth i mi ei wylio'n dioddef,
ac yn y diwedd yn marw,
dyna pryd y diffoddodd y golau i mi,
a'r byd yn dywyllach nag y bu erioed.
Yr oedd hi'n dywyll,
fel y fagddu.

**Gweddi:**
O! Dduw,
ni fu dydd erioed cyn ddued
â'r dydd y bu Iesu yn hongian ar y groes.
Casineb, dicter, rhagfarn ac ofn,
ar eu gwaethaf wrth i Iesu ddioddef.
O! Dduw, ni fu dydd erioed mor olau
â'r dydd y bu Iesu yn hongian ar y groes.
Gras, cariad, maddeuant a heddwch,
ar eu gorau wrth sicrhau ei fuddugoliaeth.
Arglwydd, ar y dydd hwnnw dangosaist
nad yw'r tywyllwch yn dywyllwch i ti,
fod y nos yn goleuo fel dydd.
Gyda'r sicrwydd hwnnw
yr ydym yn byw bob munud o'n hoes,
yn gwybod beth bynnag a wynebwn
y bydd dy gariad yn parhau i ddisgleirio,
drwy Iesu Grist ein Harglwydd.